

# MYND AR EICH PEN EICH HUN: DEALL HUNANGYFLOGAETH YNG NGHYMRU


Yr Athro Andrew Henley
Dr Mark Lang



Hydref 2017

@FSB_Wales

**fsb.wales**

fsb
Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes

# RHAGAIR

Ar adeg pan fo'r economi a busnes yng Nghymru yn mynd trwy newid a chynnwrf, mae'r sector hunangyflogedig yn dal i ddarparu swyddi a buddsoddiad mewn economïau lleol trwy hyd a lled Cymru. Er hynny, mae'n sector y deëllir fawr ddim amdano, ac ychydig ymchwil a wnaed iddo. Pa ddiwydiannau y mae'r hunangyflogedig yn gweithio ynddyn nhw? Ble maen nhw yng Nghymru? Faint o oriau y maen nhw'n ei weithio bob wythnos?

Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan FSB Cymru ac a gynhyrchwyd gan yr Athro Andrew Henley a Dr Mark Lang, yn mynd ati i daflu goleuni ar y fyddin o bobl hunangyflogedig yng Nghymru, gan ddangos sut y maen nhw'n rhedeg eu busnes, y cyfraniad a wnânt i'w heconomi leol, a sut y gallai Llywodraeth Cymru eu cefnogi wrth fynd yn eu blaen.

Un mater trawiadol a nodwyd yw'r ffordd y mae hunangyflogaeth yn edrych yn wahanol ar draws Cymru. Mae'r ymchwil a gasglwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos gwahaniaethau amlwg rhwng y cymoedd, ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol Cymru. Mae patrymau hunangyflogaeth yn gwahaniaethu'n fawr ar draws Cymru. Er enghraifft, mae'r gyfradd hunangyflogaeth ym Mhowys yn 23% mewn cymhariaeth â 8.6% yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn amlwg yn dangos yr angen am ymyriadau polisi gwahanol mewn ardaloedd gyda lefelau annhebyg o hunangyflogaeth.

Wrth i Gymru symud at ganolbwyntio mwy ar ddatblygu rhanbarthol trwy'r bargeinion dinesig a thwf sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economaidd rhanbarthol, mae'r ymchwil hwn yn dangos fod angen o hyd am ddatblygu economaidd lleol i ddiwallu anghenion busnesau micro a busnesau bach, yn cynnwys y rheini mewn hunangyflogaeth. Byddai anghenion rhywun hunangyflogedig yng Nghasnewydd yn amlwg yn wahanol i rai rhywun yn Yr Wyddgrug, ac mae angen i'n llunio polisïau adlewyrchu hyn er mwyn bod ar eu mwyaf effeithiol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru gyflawni'r gorchwyl uchelgeisiol hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos hefyd fod llawer o waith eto i'w wneud sy'n gallu cefnogi'r rheini sydd, neu sy'n ceisio bod yn hunangyflogedig. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau mewn hunangyflogaeth yn uchel mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae gan Gymru ddiwylliant oriau hir arbennig o amlwg mewn hunangyflogaeth. Mae hyn yn rhywbeth y bydd llawer o aelodau'r FSB yn uniaethu ag ef.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pendant a fydd yn sicrhau bod y gwahaniaethau mewn hunangyflogaeth ar draws Cymru yn cael sylw fel rhan o adolygiad polisi mawr o hunangyflogaeth, yn canolbwyntio ar sut i ymateb i'r twf a phatrymau lleol hunangyflogaeth.

Yn fwy na dim fodd bynnag, dylai'r adroddiad hwn fod yn gymhelliant nid yn unig o ran deall darlun hunangyflogaeth yng Nghymru yn well ond hefyd wrth ddathlu'i heffaith ac amlygu cyfleoedd i harneisio'r gweithgaredd entrepreneuraidd hwn.


Mae FSB Cymru yn barod i barhau i chwarae ei ran wrth annog a hyrwyddo hunangyflogaeth ar draws Cymru, ac rydym yn gobeithio bod yr adroddiad hwn yn denu Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gymryd camau i gefnogi'r sector yma o bobl sy'n cyfrannu cymaint at ein heconomi amrywiol yng Nghymru.

Janet Jones


Cadeirydd Polisi FSB Cymru

# CYFLWYNIAD

Rhwng 2007 a 2016 tyfodd hunangyflogaeth yn y Deyrnas Unedig (DU) o 3.6m i 4.33m, ac roedd i gyfrif am 44% o gyfanswm twf swyddi. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd hunangyflogaeth yng Nghymru o 161k to 176k, a oedd yn cynrychioli 38% o gyfanswm twf swyddi. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi comisiynu dau adolygiad mawr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, sy'n ein helpu i ddeall natur a goblygiadau'r cynnydd hwn mewn hunangyflogaeth yn well[1]. Yng Nghymru, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi methu hyd yma ag ymateb yn strategol i'r ffaith y bu 38% o dwf swyddi dros y deng mlynedd ddiwethaf yn gynnydd mewn hunangyflogaeth. Ar ben hynny, er y bu diddordeb cynyddol yn y tueddiadau hun fel testun ymchwil[2], mae'r tueddiadau rhanbarthol ac is-ranbarthol ac, yn arbennig, y tueddiadau lleol yn aros heb eu hymchwilio'n ddigonol i raddau helaeth.




**Rhwng 2007 a 2016 tyfodd hunangyflogaeth yng Nghymru o 161k to 176k**





**a oedd yn cynrychioli 38% o gyfanswm twf swyddi**

[1] Deane, J. (2016). *Self-Employment Review – An Independent Report.*
Taylor, M. (2017). *Good Work: The Taylor Review of Modern Working Practices*.

[2] Gweler er enghraifft:
Co-operatives UK (2015). *Not Alone: Trade Union and Co-operative Solutions for Self-Employed Workers*.
Dawson, C., Henley, A. and Latreille, P. (2014). 'Individual motives for choosing self-employment in the UK: does region matter?', *Regional Studies*, cyf. 48, t. 804-822.
Henley, A. (2017). 'Post Crisis Growth in the Self-Employed: Volunteers or Reluctant Recruits?', *Regional Studies*, Cyf. 51:9, t. 1312-1323.
Mone, M. (2016). *Boosting Enterprise in Deprived Communities*.


## Cyfraddau Hunangyflogaeth ONS (%) 2007-2016




Mae cyfeiriad polisi economaidd Llywodraeth Cymru yn dal i ganolbwyntio ar resymeg dinasoedd rhyngwladol gystadleuol, pwyslais ar sicrhau buddsoddiad tramor, ffocws ar dargedu 'sectorau allweddol' y nodwyd bod ganddynt fwyaf o botensial twf, a sefydlu cyfres o Barthau Menter i sicrhau twf a denu buddsoddiad. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR)3 yn mynd â'r agenda yma yn ei blaen yn Ne-Ddwyrain Cymru, yn bennaf trwy beirianwaith Bargen Ddinesig Caerdydd. Mae Bargen Ddinesig yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yn Abertawe, mae 'Bargen Dwf' yn yr arfaeth hefyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac mae partneriaeth 'Tyfu Canolbarth Cymru' wedi'i sefydlu. Mae hyd yn oed gynigion Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd â'r gallu i gyflenwi 'effaith crynodref'4. Eto, mae arwyddocâd macroeconomaidd y cynnydd sylweddol mewn hunangyflogaeth yng Nghymru, dros y deng mlynedd ddiwethaf, yn parhau'n ystyriaeth ymylol i raddau helaeth ac ychydig ddealltwriaeth sydd o hyd o oblygiadau buddsoddiad y sector cyhoeddus i hyrwyddo'r amcanion crynodref ar batrymau hunangyflogaeth ar draws Cymru.

Mae'r adroddiad hwn, yr ymgymerwyd ag ef ar ran Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, yn ceisio ysgogi trafodaeth ehangach yng Nghymru ynghylch goblygiadau polisi hunangyflogaeth. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar adolygiad o'r ffynonellau data sydd ar gael i nodi tueddiadau diweddar a chyd-destunol mewn hunangyflogaeth ar draws Cymru. Gan fod yr adroddiad hwn wedi ceisio nodi, hyd y gellir, dueddiadau is-ranbarthol a lleol mewn hunangyflogaeth ar draws Cymru, mae wedi gwneud defnydd o ffynonellau data sy'n dal yr amrywiad hwn, sy'n seiliedig ar leoedd, orau. Mae'r data a ddefnyddiwyd yn cynnwys Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n cynnig y ffynhonnell ddata mwyaf ffrwythlon gydag ardaloedd awdurdodau lleol wedi'u henwi, Arolwg Poblogaeth Blynyddol y DU, sy'n cynnwys yr Arolwg Llafurlu ac Arolwg Llafurlu Cymru, ac Arolwg Hydredol Cartrefi'r DU Deall Cymdeithas y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Mae'r adroddiad wedi gwneud defnydd hefyd o nifer fechan o gyfweliadau ansoddol, lled-strwythuredig, dienw gyda phobl hunangyflogedig yng Nghymru, sy'n cael eu cyflwyno ar ffurf astudiaethau achos enghreifftiol. Mae'r pynciau a ystyriwyd yn cynnwys y ffactorau gwthio-tynnu yn ymwneud â phenderfyniadau gyrfa hunangyflogaeth, ac effaith amrywiol ffactorau economaidd-gymdeithasol a demograffig ar hunangyflogaeth, megis galwedigaeth a gwahaniaethau sector, rhyw a lefelau cyrhaeddiad addysgol.


[3] Lewis, R. (2015). *Powering the Welsh Economy*. Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: Caerdydd.
[4] Datganiad gan y Gweinidog, Llywodraeth Cymru (2015).




Mae'r cynnydd arwyddocaol er 2008 yn golygu bod hunangyflogaeth ar ei lefel uchaf mewn 40 mlynedd, a'i fod i gyfrif yn awr am 15% o weithlu'r DU, i fyny o 12% yn 2000 ac 8% yn 1980[5]. Bu pryder cynyddol fodd bynnag fod llawer o'r cynnydd hwn mewn hunangyflogaeth, er 2008, wedi digwydd o ganlyniad i'r 'economi gig' fel y'i gelwir. Yr economi gig yw'r term sydd wedi'i roi i bobl sy'n tueddu i werthu'u llafur gan ddefnyddio apiau a ddatblygwyd gan fusnesau mwy, gyda'r rhai a ddefnyddir amlaf yn cynnwys Uber a Deliveroo, ac a allai felly gael eu disgrifio'n 'ddibynnol' ar blatfformau ar-lein a reolir gan drydydd person. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod tua 1.3 miliwn o bobl (4% o bawb sydd mewn cyflogaeth) yn gweithio yn awr yn yr economi gig yn y DU, ac mae ymchwil yn awgrymu y bydd yr economi gig yn dal i dyfu. Mae Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn amcangyfrif bod 58% o'r rhain yn cyfranogi yn yr economi gig i ychwanegu at eu swyddi 'statws cyflogedig' mwy traddodiadol[6]. Mae llawer o'r drafodaeth polisi ynghylch hunangyflogaeth, yn ystod y blynyddoedd diweddar, wedi bod a wnelo o'r herwydd â'r math hwn o batrwm hunangyflogaeth.

Er pwysiced ydyw i ystyried goblygiadau'r duedd hon tuag at gyflogaeth ansicr i'r rheini sy'n ei phrofi nid hwn yw'r unig, neu hyd yn oed y prif fater, sydd ag angen ei ystyried o fewn cyd-destun ymateb polisi i hunangyflogaeth. Er y bu cynnydd yng nghyfran y bobl hunangyflogedig sy'n gweithio yn yr economi gig ddibynnol, ymylol fu'r newid a 'dyw ond i gyfrif am gyfran fechan o'r twf cyffredinol mewn hunangyflogaeth fel y mae ymchwil y CIPD yn ei ddangos. Er pwysiced ydyw, mae'n ymddangos bod yr economi gig yn fater mwy arwyddocaol i bolisi rheoleiddio contractau cyflogi a'r farchnad lafur weithgar, nag ymatebion polisi i'r cynnydd mewn hunangyflogaeth. Ar gyfartaledd ar draws y DU, mae mwyafrif llethol pobl hunangyflogedig yn dal i fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau busnes sy'n chwilio am gyfleoedd, yn hytrach na gweithwyr dibynnol yr economi gig.

### Cyfran o Berchnogion Busnes Ymhlith yr Hunangyflogedig – DU




*Ffynhonnell: ESRC Deall Cymdeithas (Arolwg Hydredol Cartrefi'r DU)*

[5] FSB (2016). *Going It Alone, Moving On Up: Supporting Self-Employment in the UK.*
[6] Dyfynnwyd yn: Taylor, M. (2017). *Good Work: The Taylor Review of Modern Working Practices, t. 25.*

Mae'r twf mwy arwyddocaol mewn perchnogion busnes hunangyflogedig yn cael ei egluro gan Henley[7], sy'n dadlau mai ychydig dystiolaeth sydd o 'wthiad dirwasgiad' negyddol ar hunangyflogaeth, ond tystiolaeth gref o 'dynfa' galw lleol, a bod hyn yn arbennig o wir yn achos merched hunangyflogedig. Mae hyn yn awgrymu bod pobl yn fwy tebygol o ddewis hunangyflogaeth pan fydd diweithdra lleol yn gostwng ac enillion yn gwella. Po hiraf y bu rhywun yn ddi-waith a po uchaf y gyfradd diweithdra leol, y lleiaf tebygol y maent o symud i hunangyflogaeth. Mae hyn yn cefnogi'r dystiolaeth fod y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn hunangyflogaeth, er 2008, wedi digwydd oherwydd penderfyniadau 'tynnu' entrepreneuraidd, yn hytrach na 'gwthiad' dibyniaeth. Mae Henley yn rhybuddio, oherwydd y rhesymau hyn, y gall polisïau sy'n amcanu at gefnogi'r di-waith i entrepreneuriaeth gynyddu anghydraddoldebau gofodol, gan eu bod yn debygol o gael mwy o effaith mewn lleoedd gydag economïau lleol cryfach ar hyn o bryd.

**Y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn hunangyflogaeth, er 2008, wedi digwydd oherwydd penderfyniadau "tynnu" entrepreneuraidd, yn hytrach na "gwthiad" dibyniaeth**



Mae modd deall y gwahaniaethau gofodol a brofir mewn hunangyflogaeth felly o ganlyniad i amrediad o ffactorau cyd-destunol, yn cynnwys cryfder presennol economïau lleol. Mae polisi economaidd i ysgogi galw neu allbynnau lleol i fusnesau newydd, yn hytrach na'r cyflenwad o entrepreneuriaid, yn fwy tebygol, felly, o fod yn effeithiol wrth godi nifer cyffredinol yr hunangyflogedig, tra'i fod ar yr un pryd yn helpu i oresgyn anghydraddoldebau economaidd gofodol.

Gall ffactorau eraill yn seiliedig ar leoedd gael effaith arwyddocaol hefyd ar batrwm a phrofiad hunangyflogaeth. Mae'r ffactorau'n cynnwys y diwylliannau entrepreneuraidd lleol presennol a hanesyddol. Gall maint y sylfaen hunangyflogaeth bresennol fod yn arwydd cryf o dwf tebygol yn y dyfodol, gan ei fod yn gallu bod yn arwydd o ddiwylliant entrepreneuraidd, rhwydweithiau busnes cryfach, a chymunedau sy'n fwy cefnogol i'r hunangyflogedig[8]. Er bod angen bod yn ofalus ynghylch achosion ac effeithiau, ymddengys fod hyn yn atgyfnerthu'r farn fod yr hunangyflogedig yn ymateb i signalau economaidd, yn cynnwys y risg ariannol a manteision hunangyflogaeth. Nid yw'r diffyg mynediad at gyfalaf o reidrwydd yn cyfyngu twf hunangyflogaeth, gan fod enillion hunangyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol yn cael effaith fawr ar ddewisiadau hunangyflogaeth ni waeth am fynediad at gyfalaf[9].

[7] Henley, A. (2017). 'The Post Crisis Growth in the Self-Employed: Volunteers or Reluctant Recruits?' *Regional Studies*, Cyf. 51.9, t. 1312-1323.

[8] Goetz, S. and Rupasingha, A. (2014). 'The Determinants of Self-Employment Growth: Insights from County-Level Data, 2000-2009',
*Economic Development Quarterly*, 28:1, t. 42-60.

[9] Ibid.

Er y bu cyfraddau hunangyflogaeth yn cynyddu yn y DU er 2008, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cydberthnasu'n gryf â chreu swyddi i eraill. Nid yw'n ymddangos bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar dwf busnes yr un fath o reidrwydd â'r rheini sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ar ba un ai i fynd yn hunangyflogedig[10]. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl hunangyflogedig yn sefydlu busnesau gyda'r nod o'u tyfu, ac ni fydd pob busnes yn creu swyddi. Fe all rhan o'r eglurhad fod yn y cydgyfeiriant graddol yng nghyfartaledd cyfraddau hunangyflogaeth y DU i ddynion a merched yn ystod y cyfnod hwn[11]. Ymddengys fod sylfaenwyr busnesau sy'n ferched, am nifer o resymau, yn ystadegol llai tebygol o gyflogi pobl na dynion sy'n berchnogion busnesau. Un o'r heriau polisi allweddol yw nid yn unig dileu rhwystrau strwythurol i hunangyflogaeth merched, ond hefyd i'r merched hynny sy'n dymuno tyfu'u busnesau neu gyflogi eraill.



**Ymddengys fod sylfaenwyr busnesau sy'n ferched, am nifer o resymau, yn ystadegol llai tebygol o gyflogi pobl na dynion sy'n berchnogion busnesau**



Mae ffactorau personol yn tueddu i ddylanwadu ar ddewisiadau gyrfa hunangyflogaeth yn fwy nag unrhyw un arall, yn cynnwys amgylchiadau economaidd sylfaenol. Fe wnaeth adolygiad diweddar o dystiolaeth ryngwladol[12] nodi 12 ffactor unigol tyngedfennol, wedi'u grwpio'n saith categori, sy'n helpu i egluro gwneud penderfyniadau ynghylch gyrfa hunangyflogaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: nodweddion sylfaenol (rhyw, oed, statws priodasol, plant); cefndir teuluol (rhieni a phriod); nodweddion personoliaeth; cyfalaf dynol (addysg a phrofiad); cyflwr iechyd; cenedligrwydd ac ethnigrwydd; a mynediad at adnoddau ariannol. Mae'r tueddfryd i fynd yn hunangyflogedig yn fwy i ddynion fel arfer, ond, hefyd yn fwy i ferched sydd ag angen mwy o hyblygrwydd. Mae'n cynyddu hefyd gydag oed a phrofiad, ac i bobl gyda llai o gyfyngiadau ariannol, ond mae hyn yn gostwng wrth i bobl dueddu hefyd i fynd yn fwy wrth-risg pan fyddant yn mynd heibio trothwy oedran arbennig. Mae'r tueddfryd i fynd yn hunangyflogedig yn fwy i bobl sy'n briod, yn ogystal ag i bobl sydd ag angen mwy o hyblygrwydd oherwydd gofal plant. Mae'n fwy hefyd pan fydd pobl wedi bod ag o leiaf un rhiant a oedd â phrofiad o hunangyflogaeth a, ble mae manteision ffordd o fyw hunangyflogedig yn cael eu dirnad yn uniongyrchol o brofiad partner o fod yn hunangyflogedig, ond, i'r gwrthwyneb, yn uwch ble mae partner yn gyflogedig gan ei fod yn amrywiaethu'r risg. Fodd bynnag, erys effeithiau addysg ac amgylchiadau iechyd ar y tueddfryd i fynd yn hunangyflogedig yn ansicr.

[10] Ibid.

[11] Henley, A. (2016). *Who and Where are the Self-Employed Job Creators?* Cynhadledd Flynyddol Sefydliad Busnesau Bach acd Entrepreneuriaeth, Paris, Hydref (ar gael gan yr awdur).

[12] Simoes, N., Crespo, N., and Moreira, S. (2016). 'Individual Determinants of Self-Employment Entry: What Do We Really Know?', *Journal of Economic Surveys*, 30:4, t. 783-806.

Fe wnaeth arolwg ledled y DU gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) o 1,600 o'i aelodau hunangyflogedig yn ystod 2015 geisio deall profiadau'r hunangyflogedig yn llawnach. Ceisiodd yr arolwg nodi rhai o'r manteision, heriau ac amgylchiadau personol allweddol a nodwyd gan ei aelodau hunangyflogedig[13]. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol.

### Manteision, Heriau ac Amgylchiadau Personol Aelodau Hunangyflogedig yr FSB

| | |
|---|---|
| **MANTEISION HUNANGYFLOGAETH** | Mantais fwyaf arwyddocaol bod yn hunangyflogedig yw annibyniaeth yn y gwaith (gyda 39% yn dweud ei fod yn fwyaf pwysig, a 79% yn ei restru ymhlith y tair mantais fwyaf).<br>Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith oedd yr ail fantais fwyaf arwyddocaol (24% yn ei restru yn uchaf; 61% yn y tri uchaf; roedd merched yn fwy tebygol na dynion o ddweud ei fod uchaf).<br>Mantais arwyddocaol arall oedd cyflawni gweledigaeth bersonol (18% uchaf; 51% tri uchaf). |
| **HERIAU** | Yr her fwyaf a nodwyd oedd diffyg sicrwydd incwm (18% yn ei restru'n uchaf; 44% yn y tri uchaf).<br>Peidio â chael eich talu os oeddech yn wael neu'r angen i gymryd amser o'r gwaith oedd yr ail her fwyaf arwyddocaol (17% yn ei restru'n uchaf; 44% yn y tri uchaf).<br>Dod o hyd i/sicrhau busnes newydd oedd y drydedd her fawr a nodwyd (18% yn ei rhoi'n uchaf; 41% yn y tri uchaf). |
| **LEFELAU INCWM** | Roedd yn amrywio'n sylweddol (mae 32% yn ennill £2000+ y mis; 41% yn ennill llai na £1000; 19% yn ennill llai na £500).<br>Roedd 31% wedi dibynnu ar gymorth ariannol partner/priod; roedd 20% wedi dibynnu ar gymorth ariannol teulu ehangach/ffrindiau. |
| **CYNLLUNIO PENSIWN A MYNEDIAD AT GYNHYRCHION ARIANNOL** | Dywedodd 31% eu bod yn cynilo mewn pensiwn preifat; roedd gan 16% fuddsoddiadau eiddo (h.y. prynu i osod) i ariannu ymddeoliad; nid oedd gan 15% gynilion i ariannu eu hymddeoliad.<br>Roedd 40% o'r rheini a oedd wedi gwneud cais am forgais wedi cael anawsterau am eu bod yn hunangyflogedig (mae hyn yn cyfateb i 21% o'r holl ymatebwyr). |
| **YSWIRIANT PERSONOL** | Roedd gan 9% yswiriant diogelu incwm. |
| **HYFFORDDIANT A CHYMORTH BUSNES** | Roedd 19% wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi gweithgareddau busnes yn y pum mlynedd ddiwethaf.<br>Roedd 6% wedi defnyddio cyngor/cymorth busnes a gefnogwyd gan y llywodraeth yn y pum mlynedd ddiwethaf. |
| **CYN MYND YN HUNANGYFLOGEDIG** | Roedd 71% wedi bod wedi'u cyflogi gan sefydliad arall.<br>Roedd 14% wedi cael eu gwneud yn ddi-waith trwy ddileu swydd neu adael cyflogaeth.<br>Roedd 4% wedi bod yn ddi-waith, ond heb fod yn chwilio am waith. |
| **DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL** | Roedd 60% yn bwriadu aros yn hunangyflogedig gan redeg yr un busnes ymhen pum mlynedd. |

[13] FSB (2016). *Going It Alone, Moving On Up: Supporting Self-Employment in the UK.*

## Amgylchiadau aelodau hunangyflogedig yr FSB cyn mynd yn hunangyflogedig

**Rhoedd 71%** wedi bod wedi'u cyflogi gan sefydliad arall

**Rhoedd 14%** wedi cael eu gwneud yn ddi-waith trwy ddileu swydd neu adael cyflogaeth

**Rhoedd 4%** wedi bod yn ddi-waith, ond heb fod yn chwilio am waith

Mae'r arolwg hwn gan yr FSB yn cynnig mwy o dystiolaeth bod dewisiadau gyrfa i fynd yn hunangyflogedig, a phrofiadau o hunangyflogaeth, yn llawer mwy cymhleth na'r hyn a eglurir gan y cynnydd mewn hunangyflogaeth ddibynnol. Mae hyn i'w sylwi'n arbennig ym manteision hunangyflogaeth a nodwyd gan aelodau'r FSB, yn ogystal â'u sefyllfa cyn mynd yn hunangyflogedig. Roedd 71% o'r rheini a arolygwyd wedi bod yn gyflogedig cyn mynd yn hunangyflogedig, ac er bod rhai heriau mawr yn cael eu nodi, roedd 60% yn bwriadu aros yn hunangyflogedig yn rhedeg eu busnes ymhen pum mlynedd. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn ceisio archwilio'r materion hyn ymhellach yng Nghymru, yn ogystal â chynnig rhywfaint o argymhellion polisi. Mae tueddiadau'n ymwneud â rhyw, oed, yr hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill, cyrhaeddiad addysgol, sector diwydiannol, lleoliad gwaith ac oriau gwaith yn cael eu trafod, yn ogystal â'r amrywiadau is-ranbarthol a lleol.

### ASTUDIAETH ACHOS: Ymgynghorydd Mapio TG, Conwy

Gŵr yn ei 60au canol sy'n ymgynghorydd mapio TG wedi'i leoli yng Nghonwy. Mae'n cynnig gwasanaethau mapio seiliedig ar TG i adrannau cynllunio awdurdodau lleol ar draws Cymru yn bennaf. Ar gyfartaledd, mae'n gweithio 50 awr yr wythnos.

Wedi'i leoli mewn swyddfa, sefydlwyd y busnes yn wreiddiol fel partneriaeth, ond aeth yn Gyfyngedig yn 2007 ac mae ef bellach yn gweithio gyda'i fab fel cyd-gyfarwyddwr y busnes.

Yn gartograffydd yn y gwasanaeth sifil yn wreiddiol, yn mapio gwarchodfeydd natur, symudodd i'r sector preifat yn y 1980au a dechrau gweithio mwy gan ddefnyddio TG. Symudodd i Ogledd Cymru ddiwedd yr 1980au. Gyda chyfrifoldebau teuluol yn mynd yn llai a rhyw gymaint o sicrwydd ariannol, sefydlodd ei fusnes ei hun, ac fe'i gwerthodd 15 mlynedd yn ôl, cyn cychwyn ei fusnes presennol.

Nid yw'n cyflogi neb a ble mae angen mae'n well ganddo weithio gyda busnesau eraill. Ond, fel rhan o gynllunio ar gyfer olyniaeth mae'n ystyried recriwtio yn awr. Heblaw am gynllunio ar gyfer olyniaeth, mae'n hyderus ynghylch dyfodol y busnes. Fe all fod wedi ymddeol ymhen pum mlynedd.

# HUNANGYFLOGAETH YNG NGHYMRU

Mae effaith lle ar hunangyflogaeth yng Nghymru yn arwyddocaol. Mae'n bosibl nodi tri math o awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnwys 'gwledig', 'trefol a chyrion trefol' a 'Chymoedd a threfol difreintiedig', sy'n rhannu gan mwyaf yn gyfraddau hunangyflogaeth o thua 20%, rhwng 10%-20% a dan 10% yn y drefn honno. Ymddengys fod y cyd-destunau lleol hyn yn cael effaith arwyddocaol ar amrywiadau lleol a mathau o hunangyflogaeth. Er nad yn ganolog i'r drafodaeth bresennol, mae'r cyffelybiaethau gyda'r model 'Tri Chymru' a fu'n thema fynych mewn gwyddor gwleidyddiaeth[14] i'w sylwi, ac yn awgrymu'r angen am fwy o ymchwil. Wrth ddadansoddi tueddiadau hunangyflogaeth mae'r model hwn, er nad yn gyfan gwbl gyson â'r data, yn gweithio'n dda at ei gilydd. Mae'r data hunangyflogaeth ar gyfer Casnewydd, er enghraifft, yn edrych yn debycach i ardal 'Cymoedd' na chanolfannau 'trefol a chyrion trefol' eraill De Cymru. Yn ogystal, mae data'r Cyfrifiad sydd ar gael yn cyflwyno uniad o Dorfaen a Sir Fynwy, a all gyfuno ardal 'Cymoedd a threfol difreintiedig' gydag un 'wledig'. Er hynny, drwodd a thro mae'r gwahaniaethau yn y cyfartaleddau rhwng y tri grŵp yn ystadegol arwyddocaol.

### Cyfraddau Hunangyflogaeth yn ôl Rhyw a Grwpiau Awdurdod Lleol yng Nghymru

| CYFRADD HUNANGYFLOGAETH (%) | DYNION | MERCHED | CYFANSWM | CYMHAREB D/M |
|---|---|---|---|---|
| "Gwledig" | 25.2 | 11.7 | 18.4 | 2.2 |
| Ynys Môn a Gwynedd | 24.1 | 10.5 | 17.4 | 2.3 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 24.3 | 10.1 | 17.0 | 2.4 |
| Ceredigion a Sir Benfro | 25.8 | 13.9 | 19.7 | 1.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 22.2 | 10.4 | 16.1 | 2.1 |
| Powys | 31.2 | 14.8 | 23.0 | 2.1 |
| "Trefol a chyrion trefol" | 16.1 | 6.9 | 11.4 | 2.3 |
| Sir y Fflint | 15.9 | 7.1 | 11.4 | 2.2 |
| Wrecsam | 16.2 | 6.4 | 11.3 | 2.5 |
| Dinas a Sir Abertawe | 14.5 | 5.9 | 10.2 | 2.5 |
| Bro Morgannwg | 19.1 | 7.5 | 13.1 | 2.5 |
| Dinas a Sir Caerdydd | 15.3 | 6.3 | 10.7 | 2.4 |
| Torfaen a Sir Fynwy | 17.8 | 8.8 | 13.2 | 2.0 |
| "Cymoedd a threfol difreintiedig" | 13.6 | 5.0 | 9.3 | 2.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 12.2 | 5.0 | 8.6 | 2.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13.8 | 5.5 | 9.7 | 2.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 14.9 | 4.9 | 9.8 | 3.0 |
| Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent | 12.8 | 4.6 | 8.7 | 2.8 |
| Casnewydd | 14.3 | 5.2 | 9.7 | 2.8 |
| Cymru | 18.1 | 7.8 | 12.9 | 2.3 |

*Ffynhonnell: Data Micro Cyfrifiad*[15]

[14] Gweler er enghraifft: Bolsom, D. (2000) 'The Referendum Result', in J. B. Jones and D. Bolsom, *The Road to the National Assembly for Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
[15] Y Cyfrifiad sy'n cynnig y ffynhonnell fwyaf o ddata sydd ar gael i archwilio patrymau hunangyflogaeth.

## Cyfraddau hunangyflogaeth yn ôl grwpiau awdurdod lleol Cymru




Gwledig **18.4%**

Trefol **11.4%**

Cymoedd **9.3%**

## Cyfraddau hunangyflogaeth yn ôl awdurdod lleol Cymru (%)




% cyfradd hunangyflogaeth

## Rhyw o hunangyflogaeth gan awdurdod lleol Cymru

| | |
|---|---|
| Ceredigion a Sir Benfro | Castell-nedd Port Talbot |
| Torfaen a Sir Fynwy | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sir Gaerfyrddin | Dinas a Sir Abertawe |
| Powys | Bro Morgannwg |
| Sir y Fflint | Wrecsam |
| Ynys Môn a Gwynedd | Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent |
| Dinas a Sir Caerdydd | Casnewydd |
| Conwy a Sir Ddinbych | Rhondda Cynon Taf |

Mae'r gyfradd hunangyflogaeth yng Nghymru drwyddi draw yn 12.9% o gyfanswm y gweithlu. Mae'r gyfradd hunangyflogaeth yn amrywio'n sylweddol o 23.0% ym Mhowys i 8.6% yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar gyfartaledd mae'r cyfraddau hunangyflogaeth isaf yng Nghymoedd De Cymru, ychydig yn uwch yn ninasoedd Cymru ac yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru drefol, ac yn sylweddol uwch yng Nghymru wledig. Fe all fod yn demtasiwn dod i'r casgliad fod hunangyflogaeth wledig uchel i'w phriodoli i'r mwyafrifedd o ffermwyr neu fusnesau amaethyddol. Ond, hyd yn oed pan dynnir y sector cynradd allan o'r data, 'dyw hyn ond yn gostwng y gyfradd hunangyflogaeth drwyddi draw ar gyfer y grŵp gwledig o 18.4% i 16.3%, sy'n dal gryn dipyn yn uwch na rhannau eraill o Gymru.

**Mae'r gyfradd hunangyflogaeth yng Nghymru drwyddi draw yn 12.9% o gyfanswm y gweithlu**



### ASTUDIAETH ACHOS: Dylunydd Gwefannau, Gwynedd


Gŵr hunangyflogedig yn ei 60au cynnar sy'n ddylunydd gwefannau wedi'i leoli yng Ngwynedd. Mae'n cynnig gwasanaethau dylunio gwefannau, yn bennaf i fusnesau sy'n cychwyn yng Ngogledd Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr sy'n chwilio am eu presenoldeb cyntaf ar y we. Mae'n gwerthu ffotograffau stoc hefyd trwy blatfform ar y rhyngrwyd. Oriau rhan-amser y mae'n eu gweithio yn awr, ar ôl torri i lawr o tua 60 awr bum mlynedd yn ôl.


Mae'r busnes wedi'i leoli yn ei gartref a bu felly ers iddo fynd yn hunangyflogedig yn 2003. Nid yw'n cyflogi neb ac nid yw erioed wedi gwneud hynny, ond mae'n gweithio gyda chydymaith busnes sydd wedi'i leoli yn Lerpwl. Ni wnaeth sefydlu fel busnes ffordd o fyw, ond dywed ei fod wedi mynd yn un felly dros y blynyddoedd diwethaf.


Roedd yn gweithio o'r blaen fel cyfarwyddwr cyllid i gwmni wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru, daeth y swydd i ben a sefydlodd ei fusnes ei hun wedi'i seilio ar ddiddordeb personol mewn TG. Nid oes ganddo unrhyw gymwysterau ffurfiol mewn TG neu ddylunio gwefannau, ond mae ganddo gymwysterau proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth o'i swydd gyflogedig flaenorol.

Sefydlodd y busnes gan ei fod yn meddwl mai dyna'r opsiwn gorau i ddal i fyw yng Ngogledd Cymru gan nad oedd arno eisiau symud. Yna, yn 47 oed, teimlai ei fod yn rhy hen i gael swydd arall ym myd cyfrifyddu. Bydd y busnes yn dod i ben pan fydd yn ymddeol yn derfynol, felly, yn y cyswllt hwnnw ni fydd dim problemau mawr yn y dyfodol. Ymhen pum mlynedd, bydd wedi ymddeol.

Mae'r siartiau isod, wedi'u tynnu o Arolwg Poblogaeth Blynyddol y DU, yn rhoi gwybodaeth fwy cyfredol am hunangyflogaeth nag sydd ar gael o ddata'r Cyfrifiad, ond dylid bod yn ofalus â nhw oherwydd fe all y data fod yn llai dibynadwy na'r Cyfrifiad. Maent yn dangos y bu'r cynnydd mwyaf cyflym mewn hunangyflogaeth rhwng 2009 a 2016 yn Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Nid yw hunangyflogaeth wedi codi mor gyflym ac, mewn rhai ardaloedd, mae wedi disgyn ychydig, yn cynnwys yng Nghymru wledig, er y dylid nodi bod y man cychwyn yn un o hunangyflogaeth sylweddol uwch yng Nghymru wledig.




*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y DU Cyfartaleddau 4 Chwarter, Nomisweb*

Mae'r amrywiad sylweddol yn y cyfraddau hunangyflogaeth ar draws Cymru yn awgrymu y byddai dull gweithredu un maint yn ffitio pawb i gefnogi'r hunangyflogedig ac, os yn ddymunol, dwf hunangyflogaeth, yn amhriodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio rhannu llywodraethu economaidd Cymru yn bedwar rhanbarth: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bae Abertawe, Canolbarth Cymru, a Gogledd Cymru[16]. Nid yw'n ymddangos, fodd bynnag, fod yr ymagwedd pedwar rhanbarth at ddatblygu economaidd sy'n cael ei dilyn ar hyn o bryd yn cyd-fynd yn llwyr â phatrymau hunangyflogaeth ar draws Cymru. Mae hyn yn

[16] Llywodraeth Cymru (2017). *Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad.*

bwysig oherwydd fe allai'r blaenoriaethau economaidd rhanbarthol a nodwyd gan y strwythurau newydd hyn dorri ar draws yr amrywiadau a geir mewn hunangyflogaeth, sydd, fel y nodwyd, i gyfrif am 38% o dwf swyddi yng Nghymru er 2007.

Ym mhob rhan o Gymru mae cyfraddau hunangyflogaeth merched gryn dipyn yn is na'r cyfraddau cyfatebol i ddynion, ac, megis yn achos Rhondda Cynon Taf, gall fod mor isel â dim ond traean cyfradd y dynion. Yn gyffredinol, mae cyfran y merched hunangyflogedig sy'n gyflogwyr yn debyg i'r dynion, ac mewn rhai ardaloedd, mae'r gyfran o ferched sy'n cyflogi eraill yn uwch mewn gwirionedd. Er hynny, mewn termau absoliwt mae yna gyfradd sylweddol is o berchenogaeth busnes gan ferched hunangyflogedig. Mae'r bwlch rhwng hunangyflogaeth merched a dynion uchaf yn y Cymoedd ac ardaloedd trefol difreintiedig Cymru, er gwaethaf cyfraddau isel drwyddynt draw yn yr ardaloedd hyn. Yn y Cymoedd felly, ymddengys fod angen nid yn unig i gefnogi hunangyflogaeth, ond hefyd angen arbennig i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau yn fwy penodol. Er, ar lefel y DU, fod peth tystiolaeth fod y bwlch rhwng y rhywiau yn cau, mae'n ymddangos mai cyfyng fu llwyddiant unrhyw fentrau polisi blaenorol i annog merched i fynd yn hunangyflogedig yng Nghymru.

### ASTUDIAETH ACHOS: Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, Caerdydd

Merch sy'n ymgynghorydd adnoddau dynol rhwng 30-40 mlwydd oed. Yn darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol a brynir i mewn, yn bennaf i Fusnesau Bach a Chanolig nad oes ganddynt eu hadran Adnoddau Dynol mewnol eu hunain, yn Ne-Ddwyrain Cymru yn bennaf. Ar gyfartaledd mae hi'n gweithio 37-40 awr yr wythnos, ond i raddau helaeth mae hi'n gallu gwneud oriau sy'n addas iddi hi.

Wedi graddio mewn daearyddiaeth yn 2001 (y tu allan i Gymru), fe wnaeth hi radd MSc rhan-amser wedyn mewn Rheoli Adnoddau Dynol, a gwblhaodd hi yn 2010 (o Brifysgol yng Nghymru). Wedi'i sefydlu bum mlynedd yn ôl, mae'i busnes yn gwmni Cyfyngedig. Heblaw hi ei hun nid yw hi erioed wedi cyflogi neb a does ganddi ddim bwriad gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r busnes wedi'i leoli yn ei chartref yng Nghaerdydd.

Roedd hi'n gweithio o'r blaen i fusnes corfforaethol mawr a oedd yn golygu bod rhaid iddi fod yn Llundain dri diwrnod yr wythnos, er ei bod hi'n dal i fyw yng Nghymru. Dilëwyd ei swydd hi ar ôl deng mlynedd gyda'r cwmni ac, ar ôl bod i ffwrdd am dri mis ar gyflog llawn fe wnaeth hi'r penderfyniad i gychwyn ei busnes ei hun.

Roedd ganddi bartner ar gyflog dibynadwy da ac, ar y pryd, 'doedd ganddi ddim plant ac felly roedd ganddi ryw gymaint o sicrwydd ariannol. Yn ogystal 'doedd arni ddim eisiau gweithio i fusnes mawr eto. 'Doedd ffordd o fyw ddim yn ystyriaeth ar y pryd, ond mae wedi dod yn ystyriaeth ers hynny, yn arbennig yn awr fod ganddi deulu ifanc.

Cafodd hi rywfaint o gyngor cychwyn gan Busnes mewn Ffocws, a chafodd grant bychan i brynu rhywfaint o offer swyddfa. Mae hi'n hapus gyda'r busnes fel y mae ac nid oes arni eisiau newid dim. Mae hi'n hyderus y bydd y busnes yn parhau heb broblemau mawr rhagweladwy, ac mae hi'n dymuno dal i'w redeg ymhen pum mlynedd.

### ASTUDIAETH ACHOS: Hyfforddwr Iechyd a Diogelwch, Caerdydd

Merch sy'n ymgynghorydd hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae hi'n darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch i grwpiau cymunedol ac i fusnesau corfforaethol mawr. Mae'i chleientiaid ledled y DU. Yn wreiddiol roedd hi'n gweithio oriau hir iawn tra oedd hi'n sefydlu'r busnes, ond, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hi wedi lleihau'r oriau y mae hi'n eu gweithio.


Mae'r busnes wedi'i leoli mewn swyddfa yng Nghaerdydd ac mae hi'n cyflogi pedwar o staff. Mae hi'n gweithio hefyd gyda thua 30 o gymheiriaid hyfforddi hunangyflogedig sydd wedi'u lleoli ar draws y DU.

Y cymhelliant gwreiddiol dros fynd yn hunangyflogedig oedd ffordd o fyw, gan fod ganddi deulu ifanc ar y pryd a'i bod yn gwneud gwaith ble oedd patrymau sifft yn gwneud hynny'n anodd iawn ac roedd arni eisiau mwy o hyblygrwydd. Roedd gan ei phartner swydd a oedd yn talu'n dda ac felly roedd ganddi ryw gymaint o sicrwydd ariannol. Mae ganddi radd ac aeth hi'n ôl i brifysgol tra oedd hi'n feichiog i gael y cymhwyster addysgu yr oedd ei angen i sefydlu'r busnes.

Wedi'i sefydlu 10 mlynedd yn ôl, roedd hi'n unig fasnachwr am y tair blynedd gyntaf, ond yna aeth yn Gyfyngedig, gan fod hynny'n ddilyniant naturiol pan gyrhaeddodd hi'r trothwy TAW ac roedd arni eisiau cyfyngu atebolrwydd a risg personol. Roedd yn help hefyd gyda chyflwyno tendrau.

Wrth edrych ymlaen mae hi'n bryderus fod y gwaith y mae hi'n ei wneud gyda grwpiau cymunedol yn mynd yn llai oherwydd toriadau ariannol yn y sector cyhoeddus. Mae hi'n dweud y bydd cynllunio gofalus yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd i ddod, ond mae hi'n gobeithio bod yn rhedeg yr un busnes ymhen pum mlynedd. Bu cymorth busnes yn dderbyniol, ac fe elwodd hi ar grant cychwyn a Twf Swyddi Cymru i gyflogi staff.


### Cyfradd Hunangyflogaeth yn ôl Grŵp Oedran




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

| % | 16-29 | 30-44 | 45-59 | 60+ |
|---|---|---|---|---|
| Gwledig | 6.3 | 19.3 | 30.7 | 43.7 |
| Trefol | 8.6 | 25.6 | 32.5 | 33.2 |
| Cymoedd | 9.8 | 27.3 | 31.6 | 31.3 |
| Cyfanswm Cymru | 7.8 | 23.3 | 31.5 | 37.4 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*




**Ar draws Cymru ar gyfartaledd mae 37.4% o'r gweithlu gweithgar dros 60 yn hunangyflogedig, ond dim ond 7.8% o'r rhai dan 30**


Mae cyfraddau hunangyflogaeth yn cynyddu'n sylweddol gydag oed, ac yn nodweddiadol maent yn llawer uwch i rai dros 45 mlwydd oed, ac yn y rhan fwyaf o ardaloedd maent hyd yn oed yn uwch i rai dros 60. Yn nodweddiadol mae hunangyflogaeth yn codi gydag oed, yn bennaf oherwydd profiad cronedig ac adnoddau cyfalaf ariannol a chymdeithasol eraill. Ar draws Cymru ar gyfartaledd mae 37.4% o'r gweithlu gweithgar dros 60 yn hunangyflogedig, ond dim ond 7.8% o'r rhai dan 30. Mae hunangyflogaeth ifanc yn tueddu i fod yn uwch yng Nghaerdydd ac Abertawe, ond mae'n is yn ôl cyfran, ar gyfartaledd, yn y Cymoedd. Mae'r ffigurau hyn yn gyson â lefelau isel o weithgaredd entrepreneuraidd ymhlith grwpiau iau, ac yn dystiolaeth o'r angen am ymyriad polisi pellach i annog cychwyn busnesau ymhlith yr ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig, er bod y gyfradd is o hunangyflogaeth iau yn cael ei gwrthbwyso gan niferoedd absoliwt uwch. Fe all cyfraddau hunangyflogaeth is pobl iau yng Nghymru wledig fod yn ganlyniad hunangyflogaeth uwch ymhlith grwpiau oedran hŷn. Os yn wir, fe all hyn godi pryderon eraill, er enghraifft olyniaeth busnes a chyfleoedd arwain busnes i bobl iau.

### Cyfraddau Hunangyflogaeth a Chyflogwyr Hunangyflogedig yn ôl Grwpiau Awdurdodau Lleol

| AWDURDOD LLEOL CYFUN | CYFRADD HUNANGYFLOGAETH (%) | YN GYFLOGWYR (%) |
|---|---|---|
| Gwledig | | |
| Ynys Môn a Gwynedd | 17.4 | 29.5 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 17.0 | 29.9 |
| Ceredigion a Sir Benfro | 19.7 | 27.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 16.1 | 23.5 |
| Powys | 23.0 | 23.9 |
| Trefol a chyrion trefol | | |
| Sir y Fflint | 11.4 | 29.8 |
| Wrecsam | 11.3 | 29.2 |
| Dinas a Sir Abertawe | 10.2 | 29.9 |
| Bro Morgannwg | 13.1 | 32.5 |
| Dinas a Sir Caerdydd | 10.7 | 26.8 |
| Torfaen a Sir Fynwy | 13.2 | 27.2 |
| Cymoedd a threfol difreintiedig | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 8.6 | 32.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9.7 | 34.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 9.8 | 26.0 |
| Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent | 8.7 | 30.1 |
| Casnewydd | 9.7 | 32.9 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

## Cyfraddau cyflogwyr hunangyflogedig yn ôl grwpiau awdurdodau lleol (%)




Mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng unig fasnachwyr neu rai nad ydynt yn berchen busnes a'r hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill. Yng Nghymru yn 2011 roedd 28.8% o bobl hunangyflogedig yn rhedeg busnesau a oedd yn cyflogi eraill. Ar gyfartaledd, mae gan ardaloedd y Cymoedd y gyfran uchaf o bobl hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill, ac mae hyn wedi'i wasgaru'n fwy gwastad dros y bandiau oedran nag mewn rhannau eraill o Gymru. Er bod y gyfradd gyffredinol yn uchaf, mae'r gyfran o'r hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill isaf yng Nghymru wledig. Felly, mae ardaloedd gyda hunangyflogaeth is drwyddi draw yn tueddu i fod â chyfran uwch o gyflogwyr hunangyflogedig; tra bo'r ardaloedd hynny gyda'r cyfraddau uchaf o hunangyflogaeth yn tueddu i fod â niferoedd is yn ôl cyfran o gyflogwyr hunangyflogedig.




**Ar gyfartaledd, mae gan ardaloedd y Cymoedd y gyfran uchaf o bobl hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill, ac mae hyn wedi'i wasgaru'n fwy gwastad dros y bandiau oedran nag mewn rhannau eraill o Gymru**

### Canran o'r Hunangyflogedig Sy'n Gyflogwyr yn ôl Grŵp Oedran

| % | 16-29 | 30-44 | 45-59 | 60+ | POB OED |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwledig | 4.1 | 17.7 | 31.1 | 47.1 | 27.0 |
| Trefol | 5.8 | 24.1 | 31.8 | 38.3 | 28.8 |
| Cymoedd | 6.2 | 23.6 | 32.3 | 37.8 | 30.5 |
| Cyfanswm Cymru | 5.2 | 21.3 | 31.6 | 41.8 | 28.4 |


*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*




**Mae'r ganran o bobl hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill yn cynyddu gydag oed ym mhob rhan o Gymru**

Mae'r ganran o bobl hunangyflogedig sy'n cyflogi eraill yn cynyddu gydag oed ym mhob rhan o Gymru. Mae hyn fel petai'n dangos bod angen cymorth i bobl hunangyflogedig iau yn y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i greu swyddi i eraill. Fe all cymorth i godi gogwydd a dyheadau tyfu busnes fod yn briodol hefyd, yn arbennig i bobl iau. Yng nghyd-destun hunangyflogaeth isel drwyddo draw yn y Cymoedd, fe all y cwestiynau polisi allweddol gael eu canolbwyntio'n well ar baham y mae cyfleoedd i fasnachu'n unigol yn arbennig o wan yn yr ardaloedd hyn. Yng Nghymru wledig, mae bron 4 ym mhob 5 o gyflogwyr dros 45.


### Canran o'r Hunangyflogedig yn ôl Cymhwyster Uchaf




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

| % | DIM | NVQ 1, 2 | GALWEDIGAETHOL | NVQ 3 | NVQ 4+ |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwledig | 26.8 | 26.7 | 11.8 | 10.7 | 24.0 |
| Trefol | 20.3 | 24.6 | 14.0 | 10.6 | 30.4 |
| Cymoedd | 27.9 | 25.5 | 15.3 | 10.4 | 20.8 |
| Cyfanswm Cymru | 24.8 | 25.8 | 13.3 | 10.6 | 25.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*




**Mae gan Gymru y gyfran uchaf o bobl hunangyflogedig heb ddim cymwysterau addysgol mewn cymhariaeth â holl ranbarthau Lloegr**

Mae gan Gymru y gyfran uchaf o bobl hunangyflogedig heb ddim cymwysterau addysgol mewn cymhariaeth â holl ranbarthau Lloegr ac, yn gyfatebol, y gyfran isaf o bobl hunangyflogedig â gradd. Yn y Cymoedd ac ardaloedd gwledig Cymru mae yna batrwm deufodd clir. Mae hunangyflogaeth fwyaf ymhlith y rheini heb ddim cymwysterau addysgol, yn ogystal â'r rheini â lefelau uwch o gymwysterau. Yng Nghymru drefol fodd bynnag, mae crynhoad llai o hunangyflogaeth ymhlith y rheini heb ddim cymwysterau a hunangyflogaeth lefel graddedigion sylweddol uwch. Yn gyffredinol, dylai'r mwyafrifedd uchel ymhlith yr hunangyflogedig o'r rheini gydag ychydig neu ddim cymwysterau fod yn bryder i bolisi a rhaglenni wedi'u cynllunio i gefnogi'r hunangyflogedig yng Nghymru. Y Cymoedd sydd â'r crynhoad uchaf o hunangyflogaeth ymhlith y rheini gyda lefelau sgiliau isel. Fe all rhaglenni cymorth hollgynhwysfawr ar gyfer yr hunangyflogedig, sydd ar gael i raddedigion a rhai nad ydynt yn raddedigion fel ei gilydd, fod yn aneffeithlon ac aneffeithiol.

### ASTUDIAETH ACHOS: Dylunydd Graffeg, Caerdydd

Merch yn ei 50au cynnar sy'n ddylunydd graffeg wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae hi'n cynnig gwasanaethau dylunio graffig i amryw o gleientiaid, yng Nghymru yn bennaf, ond mae hi wedi datblygu profiad wrth gefnogi grwpiau trydydd sector a grwpiau cadwraeth. Mae hi'n gweithio wythnos waith lawn amser, ond mae hyn yn amrywio.

Mae'r busnes wedi'i leoli yn ei chartref ac ni fu ganddi swyddfa erioed, ac ni fu angen un arni ychwaith. Nid yw hi'n cyflogi neb ac ni wnaeth hi erioed, ac nid oes ganddi unrhyw ddymuniad gwneud hynny ychwaith. Mae hi'n hapus â'r busnes fel y mae ac mae hi'n cael ei hysgogi gan ansawdd y gwaith yn hytrach na'i faint.

Sefydlodd hi'r busnes yn 2010 ar ôl gweithio yn y diwydiant dylunio am 30 mlynedd. Mae ganddi gymwysterau mewn celfyddyd, a enillodd hi mewn coleg celfyddyd. Cafodd y swydd y bu ynddi am dymor hir ei dileu ac fe gymerodd hi swydd ran-amser arall, am wyth mis, tra oedd hi'n cynyddu ei gwaith ei hun i'r pwynt ble gallai hi deimlo'n hyderus y gallai hi fynd yn gyfan gwbl hunangyflogedig.

Nid ffordd o fyw oedd y cymhelliant yn wreiddiol, ond mae bod yn hunangyflogedig wedi dangos iddi'r manteision o weithio iddi hi ei hun a'r annibyniaeth a ddaw yn sgil hynny. Nid yw hi erioed wedi chwilio am, nac wedi derbyn cymorth busnes.

### ASTUDIAETH ACHOS: Ymgynghorydd Presenoldeb Gwe, Castell-nedd Port Talbot

Ymgynghorydd 'presenoldeb gwe' hunangyflogedig yn ei 50au hwyr, sy'n darparu gwasanaethau presenoldeb gwe holistaidd i amryw o Fusnesau Bach a Chanolig yn bennaf, ond rhai busnesau mwy, i gleientiaid wedi'u lleoli yng Nghymru yn bennaf. Mae'n gweithio mwy nag oriau llawn amser.

Mae'r busnes wedi'i leoli yn ei gartref bellach, ond roedd â swyddfa yng Nghastell-nedd Port Talbot o'r blaen. Nid yw'n cyflogi neb ar hyn o bryd, ond cyn cwtogi ar y busnes sawl blwyddyn yn ôl roedd yn cyflogi tîm bychan. Ni fu'r busnes erioed yn fusnes ffordd o fyw, ac ni chafodd ei sefydlu ar y sail honno.

Roedd o gefndir peirianyddol yn wreiddiol, ond dechreuodd y busnes gyda'i wraig 20 mlynedd yn ôl. Roedd ei gymwysterau ffurfiol mewn peirianneg yn wreiddiol, yn hytrach nag yn ei weithgareddau busnes presennol, sy'n hunanddysgedig i raddau helaeth.

Mae'n hyderus yn nyfodol y busnes ac ni all weld unrhyw broblemau gweladwy gwirioneddol, ac mae'n gobeithio bod yn dal i redeg ei fusnes ymhen pum mlynedd. Mae'n credu bod y cymorth busnes sydd ar gael yng Nghymru yn wael ac nid yw wedi ceisio na derbyn dim yn ddiweddar.

### Ffactorau Personol Eraill[17]

Mae gan Gymru y gyfradd uchaf o hunangyflogaeth ymhlith pobl sydd piau eu cartref heb forgais o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr. I'r gwrthwyneb, mae gan Gymru y cyfraddau isaf o hunangyflogaeth ymhlith rhentwyr preifat o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr, ac mae'r gyfradd ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn gymharol isel hefyd. Mae'r gyfran uchaf o'r hunangyflogedig sy'n berchnogion llwyr ar eu cartrefi yng Nghymru wledig, gan ffurfio dros 50% o'r hunangyflogedig yng Ngheredigion, Sir Benfro, Powys a Sir Gaerfyrddin. Yn y cyfamser, mae Caerdydd yn yr eithaf arall, gyda hunangyflogaeth cymharol uwch ymhlith rhentwyr preifat.

Mae cyfradd cyflogwyr hunangyflogedig yn tueddu i fod yn uwch ymhlith perchnogion tŷ, yn arbennig y rheini heb ddim morgais, ac mae'n arbennig o uchel yng Nghymru wledig. Ym Mhowys, er enghraifft, mae 61% o'r holl gyflogwyr hunangyflogedig yn berchen ar eu tŷ yn llwyr. Mae perchenogaeth lwyr yn cydberthyn yn gryf i oed ac mae hyn, efallai, yn egluro'r amrywiadau ar draws ardaloedd Cymru. Ble mae perchentyaeth lwyr yn uchel, mae hunangyflogaeth drwyddo draw felly hefyd. Mae hyn efallai'n egluro effaith cryfder economïau lleol ac effaith ffactorau personol megis oed a sicrwydd ariannol ar benderfyniadau gyrfa hunangyflogedig.

Mae sicrwydd ariannol yn tueddu i gynyddu hefyd gyda bodolaeth cartrefi gyda chyplau ynddynt, gan fod yr incwm mewn cartrefi o'r fath yn tueddu i fod yn amrywiol. Ar draws Cymru, mae 49% o ddynion hunangyflogedig yn byw mewn cartrefi cyplau, ac mae 20% arall yn ferched sy'n byw mewn cartrefi cyplau. Dim ond cyfran fechan iawn o'r hunangyflogedig yn holl ardaloedd Cymru sy'n byw mewn cartrefi sengl, ac fe all hyn fod â chysylltiad â phroffil oed hŷn yr hunangyflogedig yn gyffredinol. Ymddengys fod lleiafrif gweddol fawr o'r hunangyflogedig yn bobl ifanc sy'n byw gyda rhieni, yn arbennig yng Nghymru wledig. Yng Ngheredigion a Sir Benfro, er enghraifft, mae 24% o'r hunangyflogedig yn bobl ifanc sy'n byw gyda'u rhieni.


Ychydig ddealltwriaeth sydd o hyd o'r materion yn ymwneud â statws iechyd yr hunangyflogedig, fel y nodwyd uchod. Mae cyfran yr hunangyflogedig sy'n sôn am statws iechyd 'da', o'i gyferbynnu â 'gweddol' neu 'wael', yng Nghymru yn 73.8%. Mae hyn yn is nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Mae statws iechyd gwaelach ymhlith yr hunangyflogedig yng Nghymru yn fwyaf cyffredin yng Nghastell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf. Mae'r patrymau hyn yn tueddu i fod yn wir hefyd ymhlith y bobl hunangyflogedig hynny sy'n sôn am 'broblemau iechyd cyfyngus hirdymor'.



**Dyw'r crynhoad o hunangyflogaeth sector cynradd yng Nghymru wledig ddim yn syndod, ond mae mwyafrifedd hunangyflogaeth adeiladu yn y Cymoedd, a hunangyflogaeth busnes uwch a gwasanaeth 'cyhoeddus' yn y Gymru drefol yn dueddiadau nodedig hefyd**

[17] Mae data a ddefnyddiwyd yn yr adran hon yn deillio o Gyfrifiad 2011.

## Canran yr Hunangyflogedig yn ôl Sector Diwydiant




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*


| % | CYNRADD | CYNHYRCHU | ADEILADU | CYFANWERTHU / MANWERTHU | CLUDIANT | GWESTY / ARLWYO | GWASANAETHAU ERAILL | GWASANAETHAU CYHOEDDUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwledig | 16.7 | 6.5 | 17.5 | 14.5 | 3.7 | 9.0 | 19.1 | 13.1 |
| Trefol | 4.1 | 6.8 | 19.1 | 15.3 | 5.4 | 5.9 | 25.6 | 17.8 |
| Cymoedd | 2.9 | 9.3 | 26.5 | 15.2 | 5.9 | 7.2 | 19.1 | 13.9 |
| Cyfanswm Cymru | 9.3 | 7.2 | 20.1 | 14.9 | 4.7 | 7.5 | 21.3 | 14.9 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

Mae yna raniad trefol, Cymoedd, gwledig cryf mewn hunangyflogaeth ar draws y sectorau yng Nghymru. Mae gan Gymru y gyfradd uchaf o hunangyflogaeth sector cynradd (amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth) o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr, ond cyfraddau hunangyflogaeth sylweddol is yn y sectorau gwasanaeth. Mae gan Gymru wledig hunangyflogaeth sector cynradd[18] a gwestai ac arlwyo cryf, tra bod gan y Cymoedd hunangyflogaeth sylweddol uwch mewn adeiladu. Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu efallai bod cyfran sylweddol o'r rheini sy'n hunangyflogedig yn y sector adeiladu yn y Cymoedd yn teithio'n rheolaidd i ganolfannau trefol cyfagos ar gyfer eu gweithgareddau busnes.

Mae cyflogwyr hunangyflogedig ar draws Cymru yn tueddu i fod yn fwy cryno mewn gweithgareddau cyfanwerthu a manwerthu, yn ogystal ag mewn gwasanaethau eraill, ond mae yna gryn dipyn o amrywiad rhwng awdurdodau lleol. 'Dyw'r crynhoad o hunangyflogaeth sector cynradd yng Nghymru wledig ddim yn syndod, ond mae mwyafrifedd hunangyflogaeth adeiladu yn y Cymoedd, a hunangyflogaeth busnes uwch a gwasanaeth 'cyhoeddus' yn y Gymru drefol yn dueddiadau nodedig hefyd. Yn gyffredin â thueddiadau eraill yn ymwneud â hunangyflogaeth yng Nghymru, mae'r canfyddiad hwn yn galw am yr anghenion i dargedu cymorth i'r hunangyflogedig yn fwy deallus a gofalus.

### Canran yr Hunangyflogedig yn ôl Man Gwaith




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 201*

| % | MAN SEFYDLOG | DIM MAN SEFYDLOG | O GARTREF |
|---|---|---|---|
| Gwledig | 24.8 | 21.9 | 53.3 |
| Trefol | 35.3 | 26.0 | 38.8 |
| Cymoedd | 33.9 | 31.0 | 35.1 |
| Cyfanswm Cymru | 30.5 | 25.3 | 44.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 201*

[18] Dylid nodi hyd yn oed pan gaiff ffermio ei ddileu o'r data hwn, bod y gyfradd hunangyflogaeth yng Nghymru wledig ond yn disgyn o 2%.

## Canran yr hunangyflogedig yn ôl man gwaith (cyfanswm Cymru)



**30.5%** man sefydlog

**25.3%** dim man sefydlog

**44.2%** o gartref

Yng Nghymru mae 11% o'r hunangyflogedig heb ddim man gwaith sefydlog ac mae 33.5% yn gweithio o gartref. Yr unig ranbarth yn Lloegr gyda lefel uwch o hunangyflogaeth yn gweithio o gartref yw'r De-Orllewin. Mae dros hanner yr hunangyflogedig yng Nghymru wledig yn gweithio o gartref, ac mae'r cyfraddau'n arbennig o uchel ym Mhowys. I'r hunangyflogedig sy'n gweithio o gartref mewn ardaloedd gwledig, fe all fod angen i ymatebion polisi fynd i'r afael â'r diffyg adeiladau busnes priodol, yn ogystal â phroblemau'n ymwneud â mynediad i wasanaethau band eang cyflym, a'r gallu i elwa arnynt.

Mae yna lefelau uchel o beidio â bod â man gwaith sefydlog ymhlith yr hunangyflogedig yn y Cymoedd. Mae Rhondda Cynon Taf â chyfraddau sylweddol uwch o bobl hunangyflogedig heb ddim man gwaith sefydlog nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, yma mae 23.3% o'r holl bobl hunangyflogedig heb ddim man gwaith sefydlog, dros ddwywaith cyfartaledd Cymru. Fe all y cyfraddau hyn o beidio â bod â man gwaith sefydlog yn y Cymoedd gael eu hegluro, wrth gwrs, gan y graddau uchel o hunangyflogaeth yn y sector adeiladu yn yr ardaloedd hyn.

I'r hunangyflogedig heb ddim man gwaith sefydlog, fe all seilwaith trafnidiaeth leol ac is-ranbarthol, yn arbennig cysylltiadau ffyrdd ar gyfer y sector adeiladu, fod yn bwysig i hwyluso mynediad at gyfleoedd busnes. I rai, fe all fod angen gwell mynediad at adeiladau busnes priodol, fforddiadwy i hwyluso twf busnes. Mewn rhai ardaloedd fe all ddigwydd bod yr adeiladau busnes sydd ar gael yn rhy fach i gynnwys rhai mathau o weithgaredd busnes.

### ASTUDIAETH ACHOS: Saer Coed, Ceredigion

Saer coed ac adeiladwr cyffredinol hunangyflogedig yn ei 50au canol, y mae'i weithgareddau busnes wedi'u lleoli, bron yn llwyr, yng Ngheredigion. Mae'n gweithio 35-40 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mae ganddo gymwysterau City and Guilds mewn gwaith coed, a enillodd yn ei 20au canol yn ystod chwe mis yn y coleg ac yna ar leoliad gwaith. Mae'n hunanddysgedig mewn sgiliau adeiladu eraill. Mae'n gwneud pob gwaith coed ffit gyntaf ac ail ffit, yn ogystal ag amrywiaeth o waith adeiladu cyffredinol, i ddeiliaid tai yn bennaf, ond weithiau caiff ei isgontractio gan adeiladwyr eraill. Mae'r raddfa o waith y mae'n ei wneud i fyny at faint estyniadau bychain.

Daeth yn saer coed hunangyflogedig gyntaf yn 1986 pan symudodd o Ardal y Llynnoedd, wrth ymateb i hysbyseb gan y Brifysgol leol am gontractwyr hunangyflogedig. Cymerodd statws cyflogedig yn 1992 i weithio i elusen, ond yna aeth yn hunangyflogedig eto ac mae wedi bod felly er 2002. Pan aeth yn hunangyflogedig y tro cyntaf roedd hi'n fwy trwy ddamwain, ac wrth iddo gyrraedd tref newydd i fyw a chwilio am waith y cododd y cyfle. Ar yr ail achlysur, roedd hi'n llawer mwy o ddewis ffordd o fyw – roedd arno eisiau'r manteision o weithio iddo ef ei hun.

Roedd yn cyflogi prentis tan 2008, ond bu raid iddo ddileu ei swydd oherwydd cwymp yn y gwaith ac nid yw wedi cyflogi neb ers hynny. Mae'n well ganddo'n awr isgontractio gwaith i gydymaith busnes dibynadwy pan fydd angen, yn hytrach na chyflogi pobl yn uniongyrchol. Nid oes ganddo unrhyw adeilad busnes gan nad oes arno angen un, ac mae'n gweithio o'i fan. Derbyniodd grant i helpu gyda phrynu rhywfaint o gelfi pan aeth yn hunangyflogedig eto yn 2002, ond fel arall nid yw wedi derbyn nac wedi chwilio am gymorth busnes.


O ran y dyfodol, er bod arno eisiau dal i weithio yn y ffordd y mae, yn rhedeg ei fusnes ei hun dros y pum mlynedd nesaf, ac nad oes dim arwyddion bod ei waith am arafu, mae wedi cael rhywfaint o broblemau iechyd a allai ei atal rhag dal i wneud hynny oherwydd natur gorfforol ei waith.

### Canran yn ôl Oriau Gwaith

| % | <=15 AWR | 16-30 AWR | 31-48 AWR | >48 AWR |
|---|---|---|---|---|
| Hunangyflogedig | | | | |
| Gwledig | 8.6 | 16.8 | 38.3 | 36.3 |
| Trefol | 10.9 | 18.0 | 45.3 | 25.8 |
| Cymoedd | 7.2 | 17.9 | 50.0 | 24.9 |
| Cyfanswm Cymru | 9.1 | 17.5 | 43.4 | 30.1 |
| Gweithwyr | | | | |
| Gwledig | 9.8 | 23.1 | 57.2 | 9.9 |
| Trefol | 9.5 | 21.5 | 59.9 | 9.1 |
| Cymoedd | 7.9 | 20.8 | 63.3 | 7.9 |
| Cyfanswm Cymru | 9.1 | 21.7 | 60.3 | 9.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

## Canran yn ôl oriau gwaith



Mae diwylliant oriau hir yn gyffredin iawn ymhlith yr hunangyflogedig ym mhob rhan o Gymru, ac mae hyn yn arbennig o drawiadol o'i gymharu â'r rheini sy'n gyflogedig. Ar gyfartaledd, mae 30% o bobl hunangyflogedig yng Nghymru yn gweithio mwy na chyfarwyddeb oriau gwaith yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n arbennig o uchel yng Nghymru wledig. Yn gyffredinol, mae yna lefelau is o weithgaredd rhan-amser ymhlith yr hunangyflogedig nag ymhlith cyflogedigion. Fe all fod angen mwy o ymchwil i ddeall y rhesymau dros y canfyddiadau hyn. Gallai diwylliant oriau hir gael ei yrru gan esboniadau 'cadarnhaol', megis cyfleoedd busnes a gogwydd at dwf, yn ogystal â gan esboniadau 'negyddol' megis cyfraddau enillion isel.

**Ar gyfartaledd, mae 30% o bobl hunangyflogedig yng Nghymru yn gweithio mwy na chyfarwyddeb oriau gwaith yr Undeb Ewropeaidd**




### ASTUDIAETH ACHOS: Garddluniwr, Castell-nedd Port Talbot

Gŵr yn ei 30au cynnar sy'n arddluniwr, sydd hefyd yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw adeiladau cyffredinol, mae'i weithgareddau busnes o fewn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn bennaf, er eu bod ymhellach i ffwrdd ambell dro.  Ar gyfartaledd mae'n gweithio wythnos 55 awr ar draws pum diwrnod a hanner.

Mae'n hunanddysgedig. Deiliaid tai yw ei gleientiaid gan mwyaf, ond mae ganddo rai contractau gyda busnesau hefyd, megis practisiau deintyddol lleol, sydd ag angen gwaith garddio a chynnal a chadw adeiladau.

Sefydlodd ei fusnes fel unig fasnachwr ym mis Mehefin 2016, ar ôl bod yn gyflogedig fel contractwr yn y gwaith dur ym Mhort Talbot am ddeng mlynedd. Ni chafodd ei swydd ei dileu a, phan ymddiswyddodd, cynigiwyd codiad cyflog iddo gan ei gyflogwr i aros. Aeth yn hunangyflogedig am fod arno eisiau mwy o hyblygrwydd wrth helpu ei bartner, sy'n gweithio sifftiau yn y GIG, gyda'u plentyn bach. Roedd bob amser wedi bod â'i fryd ar weithio iddo ef ei hun a, cyn dod yn gyfan gwbl hunangyflogedig, roedd wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith anffurfiol fel garddluniwr am ychydig flynyddoedd felly roedd yn hyderus y byddai'n sicrhau digon o waith petai'n penderfynu mynd yn gyfan gwbl hunangyflogedig.

Nid yw'n cyflogi neb ac nid oes ganddo unrhyw ddymuniad gwneud hynny gan nad yw'n gwneud synnwyr ariannol ac nid oes arno eisiau'r cyfrifoldebau ychwanegol. Mae'n gweithio o bryd i'w gilydd gyda chrefftwyr hunangyflogedig eraill, ond mae'n tueddu i gyfyngu graddfa a maint y gwaith y mae'n ymgymryd ag ef i'r hyn y mae'n gallu ei wneud ei hun. Roedd ganddo'r holl gelfi, offer a fan yn barod cyn mynd yn hunangyflogedig, gan ei fod wedi'u prynu dros nifer o flynyddoedd. Nid yw wedi cael unrhyw gymorth busnes ac nid yw wedi chwilio amdano.

Nid yw wedi bod yn edifar am fynd yn hunangyflogedig, ac mae ganddo waith wedi'i drefnu sawl mis o flaen llaw. Wrth edrych at y dyfodol, mae'n dymuno bod yn dal i redeg ei fusnes yn y ffordd y mae dros y pum mlynedd nesaf. Yr unig ofn sydd ganddo o ran y dyfodol yw'r duedd gynyddol o ran glaswellt artiffisial, sydd, er ei fod yn ei osod fel rhan o'i wasanaeth, yn golygu y bydd rhan torri glaswellt ei fusnes yn dirywio.

## Hunangyflogaeth yng Nghymru - Cymhariaeth â Rhanbarthau Eraill Lloegr

| | CYFRADD HUNANGYFLOGAETH | | | CYFLOGWR | OED | | ADDYSG | | ORIAU | MAN GWAITH | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DYNION | MERCHED | CYFAN-SWM | % YN HUNANGYFLOGEDIG | % 16-29 | % 60+ | % DIM CYMWYSTERAU | % NVQ4+ | % >48 AWR | DIM MAN SEFYDLOG | 0 GARTREF |
| **CYMRU** | 18.1 | 7.8 | 12.9 | 28.4 | 7.8 | 37.4 | 24.8 | 25.5 | 30.1 | 25.3 | 44.2 |
| Gwledig | 25.2 | 11.7 | 18.4 | 27.0 | 6.3 | 43.7 | 26.8 | 24.0 | 36.3 | 21.9 | 53.3 |
| Trefol | 16.1 | 6.9 | 11.4 | 28.8 | 8.6 | 33.2 | 20.3 | 30.4 | 25.8 | 26.0 | 38.8 |
| Cymoedd | 13.6 | 5.0 | 9.3 | 30.5 | 9.8 | 31.3 | 27.9 | 20.8 | 24.9 | 31.0 | 35.1 |
| **LLOEGR** | 18.9 | 8.3 | 13.5 | 25.1 | 9.7 | 31.3 | 19.8 | 30.5 | 23.7 | 29.8 | 37.8 |
| Gogledd-Ddwyrain | 13.5 | 5.5 | 9.4 | 28.8 | 8.9 | 31.2 | 22.7 | 25.7 | 25.6 | 23.5 | 39.6 |
| Gogledd-Orllewin | 16.9 | 6.9 | 11.8 | 27.5 | 8.8 | 21.9 | 22.9 | 26.4 | 23.9 | 26.9 | 37.4 |
| Efrog a Humber | 16.9 | 7.0 | 11.9 | 28.1 | 9.3 | 21.7 | 22.7 | 25.9 | 24.1 | 25.8 | 39.3 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 17.2 | 7.4 | 12.2 | 26.7 | 8.6 | 33.6 | 22.4 | 25.8 | 25.2 | 27.6 | 40.0 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 17.4 | 6.9 | 12.1 | 26.5 | 9.6 | 33.3 | 23.4 | 26.1 | 24.0 | 27.9 | 38.9 |
| Dwyrain Lloegr | 20.2 | 8.3 | 14.2 | 23.7 | 9.0 | 32.8 | 21.0 | 27.3 | 24.1 | 32.7 | 37.2 |
| Llundain | 22.0 | 10.7 | 16.4 | 22.9 | 14.7 | 20.8 | 14.6 | 41.4 | 22.1 | 34.0 | 30.5 |
| De-Ddwyrain | 20.4 | 9.1 | 14.6 | 23.5 | 8.4 | 32.9 | 17.6 | 32.3 | 23.3 | 31.2 | 39.6 |
| De-Orllewin | 20.9 | 10.0 | 15.4 | 24.8 | 7.4 | 38.5 | 18.9 | 30.0 | 24.6 | 28.3 | 44.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

Ar y cyfan, mae'r gyfradd hunangyflogaeth yng Nghymru ychydig yn is na chyfartaledd Lloegr. Ond mae'r Cymoedd ac ardaloedd gwledig Cymru ill dau yn sefyll allan, y cyntaf am ei fod yn sylweddol is a'r ail am ei fod yn sylweddol uwch. Mae'r gyfradd hunangyflogaeth yn y Cymoedd yn fwyaf tebyg i Ogledd-Ddwyrain Lloegr. Gellir cymharu Cymru wledig agosaf â rhan wledig De-Orllewin Lloegr.

Mae'n nodedig fod y gyfran o'r hunangyflogedig sy'n gyflogwyr yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr, ac, yn y cyswllt hwn, mae Cymru i'w chymharu eto â rhanbarth yng ngogledd Lloegr. O ran lefel addysg yr hunangyflogedig, mae'r Cymoedd yn sefyll allan a hwythau'n anarferol is, gyda llawer llai o bobl hunangyflogedig wedi'u haddysgu i lefel NVQ4 (yn cyfateb i gwblhau blwyddyn gyntaf cwrs addysg uwch) nag unrhyw ranbarth arall yn Lloegr.

Dim ond y De-Orllewin sydd â chyfran is o rai dan 30 a chyfran uwch o rai dros 60 mewn hunangyflogaeth na Chymru. Mae Cymru wledig yn sefyll allan yn arbennig yn y gymhariaeth dadansoddiad oedran, tra bo Cymru drefol a'r Cymoedd i'w cymharu â rhanbarth yng ngogledd Lloegr. Mae strwythur oedran gwahanol iawn hunangyflogaeth yn Llundain a'r De-Ddwyrain yn dra nodedig.

Fel y trafodwyd uchod, mae gan Gymru ddiwylliant oriau hir arbennig o amlwg mewn hunangyflogaeth sydd gryn dipyn yn uwch nag yn Lloegr, ond mae hyn yn cael ei sgiwio'n arbennig gan Gymru wledig. Mae Cymru'n cymharu â De-Ddwyrain Lloegr o ran y mwyafrifedd uchel o weithgaredd a leolir yn y cartref. Mae lefel uchel peidio â bod â man gwaith sefydlog yn y Cymoedd i'w chymharu â rhanbarthau Lloegr, ond fe all materion fforddiadwyedd fod yn ffactor sy'n egluro mwy yn ne Lloegr nag yng Nghymru.

## Cymhariaeth Hunangyflogaeth yng Nghymru â Rhanbarthau Lloegr, Dadansoddiad o'r Diwydiannau

| % O BAWB SY'N HUNANGYFLOGEDIG | CYNRADD | CYNHYRCHU | ADEILADU | CYFANWERTHU / MANWERTHU | CLUDIANT | GWESTY/ ARLWYO | GWAS'AU ERAILL | GWAS'AU CYHOEDDUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYMRU** | 9.3 | 7.2 | 20.1 | 14.9 | 4.7 | 7.5 | 21.3 | 14.9 |
| "Gwledig" | 16.7 | 6.5 | 17.5 | 14.5 | 3.7 | 9.0 | 19.1 | 13.1 |
| "Trefol" | 4.1 | 6.8 | 19.1 | 15.3 | 5.4 | 5.9 | 25.6 | 17.8 |
| "Cymoedd" | 2.9 | 9.3 | 26.5 | 15.2 | 5.9 | 7.2 | 19.1 | 13.9 |
| **LLOEGR** | 3.7 | 6.6 | 20.4 | 13.6 | 5.9 | 5.3 | 28.0 | 16.5 |
| Gogledd-Ddwyrain | 4.7 | 6.5 | 19.8 | 15.3 | 7.9 | 6.7 | 23.1 | 16.0 |
| Gogledd-Orllewin | 4.0 | 7.4 | 19.7 | 15.5 | 7.5 | 6.3 | 24.1 | 15.5 |
| Efrog a Humber | 4.7 | 7.6 | 20.6 | 15.8 | 6.7 | 6.5 | 22.6 | 15.5 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 4.8 | 8.8 | 20.3 | 16.6 | 5.8 | 5.2 | 23.4 | 14.9 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 4.9 | 8.9 | 20.8 | 15.5 | 6.1 | 5.0 | 23.6 | 15.2 |
| Dwyrain Lloegr | 3.5 | 7.0 | 22.7 | 13.2 | 6.0 | 4.3 | 27.1 | 16.2 |
| Llundain | 0.6 | 3.9 | 18.4 | 10.7 | 5.9 | 4.5 | 37.7 | 18.3 |
| De-Ddwyrain | 2.6 | 6.1 | 21.4 | 12.0 | 5.0 | 4.5 | 30.9 | 17.5 |
| De-Orllewin | 6.9 | 6.7 | 19.7 | 13.5 | 4.1 | 6.8 | 25.8 | 16.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

O'i gymharu â rhanbarthau Lloegr mae'r lefel uchel iawn o hunangyflogaeth sector cynradd yng Nghymru wledig yn nodedig, ac, o ganlyniad, mae gan Gymru ganran gynradd uwch (9.3%) nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr o dipyn. Nid yw strwythur diwydiannol hunangyflogaeth yn y Cymoedd yn rhy annhebyg i'r hyn a geir mewn rhanbarth yng ngogledd Lloegr, ond mae â lefelau is o weithgaredd sector gwasanaeth medrus nodweddiadol uwch. Ar y cyfan, mae gan Gymru gyfran sylweddol is o bobl hunangyflogedig sy'n ymgymryd â naill ai gweithgareddau 'gwasanaeth arall' neu 'wasanaeth cyhoeddus', y mae'r naill a'r llall ohonynt yn tueddu i gael eu hadnabod fel y 'sectorau gwasanaeth uwch', megis busnes i fusnes a gweithgaredd proffesiynol. Mae'r cyferbyniad gyda Llundain a'r De-Ddwyrain yn arbennig o amlwg.

### ASTUDIAETH ACHOS: Arbenigwraig Brandio, Rhondda Cynon Taf

Arbenigwraig brandio yn ei 40au hwyr wedi'i lleoli yn Rhondda Cynon Taf. Mae hi'n cynnig gwasanaethau dylunio a datblygu gwefannau i gleientiaid dros ardal ddaearyddol eang ar draws Cymru a Lloegr, yn y sector preifat yn bennaf. Mae hi'n gweithio wythnos waith 55 awr ar gyfartaledd.

Sefydlwyd y busnes, a leolir mewn swyddfa, yn 2005, ac aeth yn Gyfyngedig yn 2008 am resymau cynllunio ariannol. Ni fu dim anhawster wrth sicrhau adeilad busnes, ond mae hi'n dweud bod y trethi busnes yn rhy uchel i fusnes o'i math hi.

Fe wnaeth hi ddatblygu'r busnesau i gyflogi 5-6 o bobl, ond mae'n hi'n dweud bod y gyfraith ar gyfer cyflogi pobl yn rhy feichus i fusnesau bach ac nid yw'n hi'n cyflogi neb yn awr. Mae'i gweithwyr blaenorol hi i gyd yn hunangyflogedig eu hunain bellach ac yn aml yn gweithio gyda hi fel cymheiriaid busnes.

Ni sefydlwyd y busnes fel busnes ffordd o fyw, ond mae hi'n sicr wedi manteisio ar y ffordd o fyw y mae bod yn hunangyflogedig yn ei gynnig. Fe sefydlodd hi'r busnes am ei bod yn teimlo y gallai hi gynnig gwell gwasanaeth, ar ôl bod yn gweithio yn y diwydiant am rai blynyddoedd ar ôl graddio.

Mae'i hyder busnes ar gyfer y dyfodol yn dda, ond mae hi'n bryderus ynghylch busnesau sy'n cychwyn yn codi prisiau is na hi. Ymhen pum mlynedd mae hi'n gobeithio y bydd hi'n dal i redeg ei busnes yn y ffordd y mae hi ar hyn o bryd.

# GOBLYGIADAU AR GYFER POLISI

Mae'r adran ganlynol yn nodi un ar ddeg o faterion polisi allweddol a phwyntiau gweithredu cysylltiedig i ddod i'r golwg o'r ymchwil hwn i batrymau a phrofiadau hunangyflogaeth yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys: polisi macroeconomaidd; cefnogi entrepreneuriaeth a datblygu economaidd lleol; y galw am weithwyr newydd a chynllunio ar gyfer olyniaeth; economïau lleol cydweithredol; rhwydweithio'r hunangyflogedig; yr agenda datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau; goresgyn rhwystrau i hunangyflogaeth; hyrwyddo hunangyflogaeth; polisïau sgiliau ar gyfer yr hunangyflogedig; polisi tai a'r hunangyflogedig; ac adeiladau busnes. O'u cymryd gyda'i gilydd maent yn sail i adolygiad polisi angenrheidiol yng Nghymru, sy'n cymryd y cynnydd sylweddol mewn hunangyflogaeth yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf i ystyriaeth.

### MATER UN: Polisi Datblygu Economaidd yng Nghymru

Roedd cynnydd mewn hunangyflogaeth i gyfrif am 38% o gyfanswm twf swyddi yng Nghymru rhwng 2007-2016. Er bod nifer o adroddiadau uchel eu proffil wedi'u comisiynu gan Lywodraeth y DU, bu Llywodraeth Cymru'n araf hyd yma i ymateb i'r cyfraniad cynyddol y mae hunangyflogaeth yn ei wneud i economi Cymru. Ymddengys fod llawer o allu llunio polisïau economaidd Llywodraeth Cymru'n cael ei yrru gan sectorau, ac nad yw wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r agenda polisi hunangyflogaeth. Mae angen i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gydnabod yn well hefyd y gall penderfyniadau ynghylch lleoliad buddsoddiadau a gwasanaethau cyhoeddus gael effaith arwyddocaol ar yr hunangyflogedig, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

**PWYNT GWEITHREDU:** Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd ag adolygiad polisi mawr o hunangyflogaeth yng Nghymru. Dylai adolygiad o'r fath ystyried yn fanwl sut y dylai polisi macro-economaidd Cymru ymateb i a chefnogi twf a phatrymau lleol hunangyflogaeth er 2008 orau.

### MATER DAU: Cefnogi Entrepreneuriaeth a Datblygu Economaidd Lleol

Mae llawer o'r ffocws mewn trafodaethau poblogaidd ynghylch y cynnydd mewn hunangyflogaeth wedi canolbwyntio ar yr 'economi gig'. Tra bod i hyn oblygiadau i bolisi marchnad lafur weithgar, a'i fod yn debygol o gael ei deimlo fwy mewn mannau megis Llundain ac yng Nghymru Caerdydd, nid hwn yw'r prif ffactor yng nghynnydd hunangyflogaeth drwyddo draw. Bu ffactorau 'tynnu' yn hytrach na ffactorau 'gwthio' yn fwy arwyddocaol, ac mae'r data'n awgrymu bod pobl yn tueddu i ddewis llwybrau gyrfa hunangyflogedig pan fydd cyfleoedd economaidd lleol yn gryfach ac mewn amgylchiadau pan fydd diweithdra lleol yn is. Fe all polisïau hollgynhwysfawr wedi'u cynllunio i gefnogi hunangyflogaeth waethygu anghydraddoldebau gofodol, gan eu bod yn debygol o gael effaith arwyddocaol fwy mewn mannau mwy cefnog.

**PWYNT GWEITHREDU:** Fel rhan o adolygiad mawr o hunangyflogaeth yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'i pholisi entrepreneuriaeth. Wrth ystyried sut orau i gefnogi hunangyflogaeth, dylai sicrhau ei bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru, fel bod adnewyddiad polisi yn gosod datblygu economaidd lleol wrth ei graidd.

### MATER TRI: Galw am Weithwyr Newydd a Chynllunio ar gyfer Olyniaeth

Mae patrymau hunangyflogaeth wedi'u sgiwio'n arwyddocaol tuag at weithwyr hŷn, yn arbennig yng Nghymru wledig. Er yn cefnogi pobl hŷn yn eu gweithgareddau busnes hunangyflogedig, mae hi'n bwysig deall yn llawn oblygiadau economaidd sylfaen hunangyflogedig sy'n heneiddio. Mae hi'n bwysig deall yr effeithiau y bydd y galw am weithwyr newydd yn ei gael ar economïau lleol ar draws Cymru, a pha oblygiadau sydd i hyn o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth.

**PWYNT GWEITHREDU:** Fel rhan o adolygiad mawr o hunangyflogaeth yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn llawn effeithiau'r galw am weithwyr newydd o fewn y cyd-destun hunangyflogedig, gan nodi effeithiau andwyol posibl y gallai hyn ei gael ar economïau lleol cydnerth, yn arbennig yng Nghymru wledig. Dylai adolygiad o'r fath ystyried pa fecanweithiau allai gael eu rhoi yn eu lle i helpu i hwyluso cynllunio ar gyfer olyniaeth, a ble mae yna rwystrau i bobl ifanc rhag mynd yn hunangyflogedig.

### MATER PEDWAR: Economïau Lleol Cydweithredol

Nid yw pawb sy'n hunangyflogedig am gyflogi eraill neu dyfu'u gweithgareddau busnes. I lawer o bobl efallai nad yw manteision allweddol mynd yn hunangyflogedig yn gydnaws â chyflogi eraill, ac ni fydd pob gweithgaredd busnes hunangyflogedig yn gallu tyfu. Mae hi'n bwysig cydnabod nad yw hyn yn tanseilio'u cyfraniad economaidd presennol. O'r herwydd, mae hi'n aml yn fwy priodol a dymunol i bobl hunangyflogedig weithio gyda 'chydymaith busnes' i ddarparu rhai prosiectau. Mae i hyn oblygiadau i'r ffordd y mae caffael y sector cyhoeddus yn cael ei gyflenwi, sydd yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar hyn o bryd ar gystadleuaeth yn hytrach na chydweithrediad, ac yn tueddu i fod yn fwy hygyrch i fusnesau mwy. Ymddengys mai prin yw'r effaith y mae Canllawiau Ceisiadau ar y Cyd 2013 Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn. Fe all polisi economaidd cydweithredol yn hytrach na chystadleuol fod yn fwy priodol ar gyfer yr hunangyflogedig.

**PWYNT GWEITHREDU:** Mae angen i Lywodraeth Cymru helpu i feithrin ymagwedd fwy cydweithredol yn hytrach na chystadleuol at economïau lleol. Fel rhan o adolygiad mawr o hunangyflogaeth yng Nghymru, dylai ymagwedd o'r fath ystyried arferion caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru, i sicrhau eu bod naill ai'n fwy hygyrch eu graddfa i bobl hunangyflogedig unigol, neu'n ceisio meithrin ceisiadau ar y cyd yn well.

### MATER PUMP: Rhwydweithio'r Hunangyflogedig

Ymddengys fod diwylliant lleol o rwydweithiau busnes lleol cryf sy'n cefnogi entrepreneuriaeth yn cael effaith arwyddocaol ar batrymau hunangyflogaeth. Tra bod grwpiau busnes a thrydydd sector wedi ceisio meithrin rhwydweithiau o'r fath yn llwyddiannus mewn llawer rhan o Gymru, erys llawer o ardaloedd ble mae rhwydweithiau o'r fath yn dal yn wan ac wedyn mae'r amodau ar gyfer hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth leol yn llai ffrwythlon.

**PWYNT GWEITHREDU:** Gan weithio gyda grwpiau busnes a thrydydd sector ar draws Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol werthuso a cheisio gwella eu mentrau presennol sy'n ceisio meithrin rhwydweithiau'r hunangyflogedig a microfusnesau.

### MATER CHWECH: Yr Agenda Datganoli Cyfrifoldeb i'r Rhanbarthau

Mae yna wahaniaethau sectoraidd arwyddocaol ym mhatrymau hunangyflogaeth ar draws Cymru. Nid yw lleoliad y patrymau hunangyflogaeth hyn yn cyd-fynd yn ofodol ag agenda presennol Llywodraeth Cymru o ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau. Mae amrywiad sylweddol o fewn a rhwng y pedwar rhanbarth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi fel y lleoliad ar gyfer cyflenwi pentwr o feysydd polisi, yn cynnwys datblygu economaidd. Mae'r math o bolisi a graddfa ymyriadau ar y lefelau rhanbarthol hyn yn fwy tebygol o fod o fudd i fusnesau mawr, nag i berchnogion hunangyflogedig busnesau micro neu fach. Mae patrymau cymhleth hunangyflogaeth ar draws Cymru yn fwy tebygol o elwa ar amrywiaeth ehangach o ymyriadau lleol deallus.

**PWYNT GWEITHREDU:** Fel rhan o adolygiad mawr o hunangyflogaeth yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ar frys pa un a yw ei hagenda datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau yn adlewyrchu patrymau hunangyflogaeth ar draws Cymru. Dylai adolygiad o'r fath ystyried sut fydd patrymau twf hunangyflogaeth ar draws Cymru yn cael eu heffeithio gan ddatganoli cyfrifoldeb am weithgaredd datblygu economaidd i'r rhanbarthau

### MATER SAITH: Goresgyn Rhwystrau i Hunangyflogaeth

Mae rhai grwpiau poblogaeth heb fod yn cyflawni'u gwir botensial yn yr amrywiol rannau o Gymru, mae hyn yn cynnwys merched, yn arbennig yn y Cymoedd, a phobl ifanc, yn arbennig yng Nghymru wledig. Mae hunangyflogaeth yn cynnig cyfle mawr i roi hwb i gyfraniad economaidd y grwpiau hyn. Mae angen i gymorth menter sy'n goresgyn y rhwystrau i hunangyflogaeth i rai grwpiau fod yn ymatebol yn lleol os yw i fod yn effeithlon. Nid yw un maint yn ffitio pawb.

**PWYNT GWEITHREDU:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen gymorth sy'n seiliedig ar leoedd sy'n ceisio goresgyn rhwystrau i hunangyflogaeth i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn lleol ar hyn o bryd. Fe allai hyn gynnwys sawl ardal beilot yn y lle cyntaf, sy'n adlewyrchu patrymau lleol grwpiau o'r fath.

### MATER WYTH: Hyrwyddo Hunangyflogaeth

Er ei bod, ble mae'n briodol, yn amlwg yn bwysig i dyfu busnesau cynhenid Cymru, mae angen cydnabod hefyd nad yw y rhan fwyaf o bobl hunangyflogedig yn dymuno cyflogi eraill neu ehangu'n sylweddol y tu hwnt i'w gweithgareddau busnes presennol. Felly mae angen i Gymru gydnabod a dathlu cyfraniad economaidd hunangyflogaeth. Ar hyn o bryd mae iaith llunio polisïau economaidd wedi'i sgiwio'n anferth tuag at bwysigrwydd sicrhau mewnfuddsoddiad â pherchnogaeth dramor. Dylid nodi bod mewnfuddsoddiadau o'r fath wedi parhau i gyfrif am lai na 15% o'r swyddi yng Nghymru am flynyddoedd lawer[19], tra bod, fel yr ydym wedi'i weld, 38% o gyfanswm twf swyddi yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf i'w briodoli i'r hunangyflogedig.

**PWYNT GWEITHREDU:** Yn ogystal â chefnogi hunangyflogaeth yn weithredol, mae angen i iaith llunio polisïau economaidd yng Nghymru ddangos ei bod yn rhoi gwerth ar gyfraniad economaidd hunangyflogaeth.

### MATER NAW: Polisïau Sgiliau ar gyfer yr Hunangyflogedig

Mae cyflenwi sgiliau yng Nghymru yn cael ei benderfynu ar hyn o bryd gan dri chynllun sgiliau rhanbarthol. Ymddengys fod blaenoriaethau sgiliau'n cael eu gyrru gan bolisi sectorau, gan alwadau busnesau mawr, a gan ddarpar fuddsoddiadau tramor. Nid ydynt fel petaent yn cefnogi datblygu economaidd lleol yn ddigonol nag yn cyd-fynd â phatrymau hunangyflogaeth. Mae'r mentrau sgiliau ar gyfer busnes yng Nghymru fel petaent hefyd yn canolbwyntio ar gysylltiadau gweithwyr-cyflogwyr neu ar sgiliau perchnogion busnes, mae sgiliau ar gyfer yr hunangyflogedig yn faes ar wahân.

**PWYNT GWEITHREDU:** Mae angen i bolisïau sgiliau yng Nghymru adlewyrchu anghenion yr hunangyflogedig yn well a bod yn fwy ymatebol iddynt.

[19] http://gov.wales/docs/statistics/2016/161129-size-analysis-welsh-business-2016-en.pdf

### MATER DEG: Polisi Tai a'r Hunangyflogedig

Mewn llawer rhan o Gymru ymddengys fod cysylltiad cryf rhwng perchentyaeth a phatrymau hunangyflogaeth. Tra gallai hyn gael ei egluro'n rhannol gan y ffaith fod perchnogion tŷ yn debygol o fod yn hŷn ac yn fwy diogel yn ariannol, mae'r ddau yn benderfynyddion cryf hunangyflogaeth hefyd, fe all fod rhwystrau i hunangyflogaeth hefyd yn gysylltiedig â naill ai tenantiaeth breifat neu denantiaeth gymdeithasol. Fe all fod problemau hefyd yn ymwneud â gallu perchnogion tŷ i gael at gredyd yn well.

**PWYNT GWEITHREDU:** Mae angen i bolisi tai Llywodraeth Cymru ystyried yn llawn pa rwystrau i hunangyflogaeth a allai fodoli i denantiaid cymdeithasol a thenantiaid sector preifat, a chynllunio mecanweithiau priodol i oresgyn y problemau hyn. Gallai hyn gynnwys canllawiau adnewyddedig ynglŷn ag amodau tenantiaeth, yn arbennig yn y sector tai cymdeithasol, neu o ran trefniadau gwarant i rai nad ydynt yn berchen eu tŷ i gael at gredyd busnes.

### MATER UN AR DDEG: Adeiladau Busnes

Mewn llawer rhan o Gymru mae yna batrwm cryf o bobl hunangyflogedig naill ai'n gweithio o gartref, yn arbennig yng Nghymru wledig, neu heb ddim man gwaith sefydlog, fel yn y Cymoedd. Yn rhannol bydd hyn yn adlewyrchu dewisiadau a gofynion pobl hunangyflogedig, y mae'n well gan lawer ohonynt weithio o gartref, ond hefyd natur hunangyflogaeth mewn rhai rhannau o Gymru. Yn y Cymoedd, er enghraifft, mae yna ganran uchel o hunangyflogaeth yn y sector adeiladu. I lawer o bobl hunangyflogedig fodd bynnag, fe all y costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau busnes priodol a'u hargaeledd fod yn broblemau hefyd. Mae 'defnydd cyfamser', cydweithio a datblygiad 'gwaith byw' i gyd yn opsiynau pwysig yn y cyswllt hwn. Mae argaeledd adeiladau busnes ar gyfer pobl hunangyflogedig, mewn cyferbyniad ag adeiladau busnes cyffredinol, wedi bod yn rhywbeth a adawyd i raddau helaeth i'r trydydd sector ei gefnogi yng Ngymru. Er bod hyn wedi arwain at rai llwyddiannau gwirioneddol, erys bylchau mewn llawer rhan o Gymru.

**PWYNT GWEITHREDU:** Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru nodi a dyfeisio atebion sy'n briodol yn lleol i'r bylchau yn argaeledd lleol adeiladau busnes priodol ar gyfer yr hunangyflogedig yn well.

FSB Cymru
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP

T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales